PROTOCOL ARFER GORAU TPC 1G

CYFLWYNO HYSBYSIADAU

Deddfwriaeth

1. Mae'r rheoliadau canlynol yn gosod y drefn ar gyfer cyflwyno hysbysiadau:

- Rheol 40 o Reoliadau Trethi Annomestig (Newid i Restrau ac Apelau) (Cymru) 2005 (OS 2005/758)
- Rheol 35 o Reoliadau Dreth Gyngor (Newid i Restrau ac Apelau) 1993OS 1993/291)
- Rheol 46 o Reoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru 2010 (OS 2010/713)

Dull Gwasanaeth (yn cynnwys post, ffacs, e-bost)

2. Dylai partïon nodi yn glir y cyfeiriad y maent yn dymuno ei ddefnyddio ac unrhyw ddull(iau) o wasanaeth nad yw'n dderbyniol.

3. Dylai partïon roi gwybod i'r Tribiwnlys os yw eu manylion gohebiaeth wedi newid.

Gwasanaeth drwy'r post

4. Bydd post dosbarth cyntaf yn cael ei dybio i fod wedi ei dderbyn ar yr ail ddiwrnod gwaith ar ôl postio a phost ail ddosbarth ar y pedwerydd diwrnod gwaith, oni bai fod tystiolaeth i'r gwrthwyneb.

Anghydfodau ynghylch gwasanaeth effeithiol

5. Bydd unrhyw anghydfod yn ymwneud â gwasanaeth dogfen yn cael ei gyfeirio at y Cynrychiolydd Rhanbarthol neu drin gan y Tribiwnlys/ Panel Apêl mewn gwrandawiad.

Cyfathrebu electronig gyda'r Tribiwnlys

6. Nid yw system TG y Tribiwnlys yn gallu derbyn atodiadau o fwy na 10 megabeit. Bydd e-bost gydag atodiadau mwy na'r terfyn hwn yn cael eu gwrthod yn awtomatig a'r anfonwr yn cael ei hysbysu.